

# **Dyfarniadau a Thystysgrifau Lefel 3 a 4 mewn Asesu a Sicrhau Ansawdd**

**Llawlyfr cymwysterau ar gyfer canolfannau  
6317  
6317-30, 6317-31, 6317-32, 6317-33, 6317-40,  
6317-41, 6317-42**

## **Am City & Guilds**

City & Guilds yw darparwr cymwysterau galwedigaethol mwyaf blaenllaw'r DU, yn cynnig dros 500 o ddyfarniadau ar draws ystod eang o ddiwydiannau, a hynny o lefel fynediad i'r lefelau uchaf o gyflawniad proffesiynol. Gyda thros 8500 o ganolfannau mewn 100 o wledydd, caiff City & Guilds ei gydnabod gan gyflogwyr dros y byd i gyd am ddarparu cymwysterau sy'n cynnig prawf o'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud y swydd.

## **Grŵp City & Guilds**

Mae'r Grŵp City & Guilds yn cynnwys City & Guilds, ILM (y Sefydliad Arwain a Rheoli, sy'n darparu cymwysterau rheoli, deunyddiau dysgu a gwasanaethau aelodaeth), City & Guilds NPTC (sy'n cynnig cymwysterau sy'n gysylltiedig â thir a gwasanaethau aelodaeth), City & Guilds HAB (y Corff Dyfarnu Lletygarwch), a Chanolfan Datblygu Sgiliau City & Guilds. Mae City & Guilds hefyd yn rheoli Arholiadau'r Cyngor Peirianeg ar ran y Cyngor Peirianeg.

## **Cyfle Cyfartal**

Mae City & Guilds yn cefnogi egwyddor cyfle cyfartal yn llawn ac rydym yn ymrwymedig i fodloni'r egwyddor hon ym mhob un o'n gweithgareddau a'n deunydd cyhoeddus. Mae copi o'n datganiad polisi cyfle cyfartal ar gael ar wefan City & Guilds.

## **Hawlfraint**

Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn destun hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac nid oes modd ei chopïo, ei hatgynhyrchu neu ei dosbarthu cyn cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Fodd bynnag, gall canolfannau City & Guilds cymeradwy ac ymgeiswyr sy'n astudio am gymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- gall staff canolfannau gopïo'r deunydd at ddiben addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds yn unig, neu at ddibenion gweinyddu mewnol
- gall ymgeiswyr gopïo'r deunydd at eu defnydd eu hunain yn unig wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r *Amodau Copïo Safonol* (sydd i'w gweld ar wefan City & Guilds) yn berthnasol hefyd.

Sylwer: Nid yw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn destun hawlfraint © The City and Guilds of London Institute. Dylech wirio'r amodau ar gyfer eu copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

## **Cyhoeddiadau**

Mae cyhoeddiadau City & Guilds ar gael ar wefan City & Guilds neu gan ein hadran Gwerthu Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio +44 (0)20 7294 2850 neu drwy ffacsio +44 (0)20 7294 3387.

Mae pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg mynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn amodol ar ddatblygu a gwella parhaus a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

## **City & Guilds**

**1 Giltspur Street**

**London EC1A 9DD**

**Ffôn +44 (0)844 543 0033**

**Ffacs +44 (0)20 7294 2400**

**[www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com)**

**[centresupport@cityandguilds.com](mailto:centresupport@cityandguilds.com)**

# Dyfarniadau a Thystysgrifau Lefel 3 a 4 mewn Asesu a Sicrhau Ansawdd

## Llawlyfr cymwysterau ar gyfer canolfannau

<b>Teitl y cymhwyster</b>	<b>Rhif</b>	<b>QAN</b>
Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu	6317-30	501/1648/4
Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith	6317-31	501/1676/9
Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaethau	6317-32	501/1677/0
Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol	6317-33	501/1679/4
Dyfarniad Lefel 4 mewn Deall Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317-40	501/1649/6
Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317-41	501/1678/2
Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317-42	501/1680/0

City & Guilds  
**Sgiliau ar gyfer dyfodol mwy disglair**



[www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com)

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad i'r cymwysterau</b>	<b>5</b>
1.1	Cyfleoedd am ddilyniant	14
<b>2</b>	<b>Gofynion canolfannau</b>	<b>15</b>
2.1	Cymeradwyo	15
2.2	Sicrhau Ansawdd	15
2.3	Adnoddau dynol	17
2.4	Gofynion mynediad i ymgeiswyr	19
2.5	Gofynion technegol FfCCh	20
2.6	Gweinyddu City & Guilds	20
2.7	Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)	20
2.8	Apeliadau yn erbyn penderfyniadau asesu	21
2.9	Cyfle cyfartal	21
<b>3</b>	<b>Cynllun a chyflwyno cyrsiau</b>	<b>22</b>
3.1	Asesu cychwynnol ac ymsefydlu	22
3.2	Strategaethau cyflwyno dysgu	22
<b>4</b>	<b>Asesu</b>	<b>23</b>
4.1	Crynodeb o ddulliau asesu	23
4.2	Gofynion tystiolaeth	25
<b>5</b>	<b>Unedau</b>	<b>26</b>
<b>Uned 301</b>	<b>Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu</b>	<b>27</b>
<b>Uned 302</b>	<b>Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith</b>	<b>50</b>
<b>Uned 303</b>	<b>Asesu Sgiliau Galwedigaethol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth</b>	<b>62</b>
<b>Uned 401</b>	<b>Deall Egwyddorion ac Arferion Sicrhau Ansawdd Asesu'n Fewnol</b>	<b>73</b>
<b>Uned 402</b>	<b>Sicrhau Ansawdd Asesu'n Fewnol</b>	<b>90</b>
<b>Uned 403</b>	<b>Cynllunio, Dyrannu a Monitro Gwaith yn eu Maes Cyfrifoldeb eu hunain</b>	<b>104</b>
<b>Atodiad 1</b>	<b>Ffynonellau gwybodaeth gyffredinol</b>	<b>106</b>

City & Guilds  
**Sgiliau ar gyfer dyfodol mwy disglair**



[www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com)

# 1 Cyflwyniad i'r cymwysterau

Croeso i gymwysterau asesu a sicrhau ansawdd asesu. Mae'r cymwysterau hyn yn cynrychioli newid ar ffurf camau go iawn o ran yr ymagwedd at gymwysterau asesu a sicrhau ansawdd; am y tro cyntaf, caiff gwybodaeth ei chydnabod yn ffurfiol fel sail dros berfformiad cadarn drwy gynnwys uned wybodaeth neu theori'n orfodol ym mhob un o'r cymwysterau.

Mae'r llawlyfr hwn yn darparu popeth y mae angen i chi ei wybod er mwyn cyflwyno ac asesu'r Dyfarniadau a'r Tystysgrifau hyn gan gynnwys manylion ac arweiniad ar:

- sicrhau ansawdd
- gofynion adnoddau canolfannau
- ymagweddau dysgu ac asesu
- strwythurau cymwysterau
- dilyniant
- yr unedau asesu
- cyfarwyddyd ar asesu
- cyfarwyddyd ar dystiolaeth

## Y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau (FfCC)

Mae'r FfCC yn fframwaith sy'n seiliedig ar gredydau sy'n disodli'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC). Mae'r fframwaith yn aseinio gwerthoedd credyd i unedau a chymwysterau, gan ganiatáu i ddysgwyr a chanolfannau olrhain yn hawdd dilyniant ac ennill dysgu a sgiliau. Mae'r FfCC yn olrhain data cyflawniad drwy rif dysgwr unigol (ULN). Bydd angen i ganolfannau gofrestru â'r Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr (LRS) er mwyn cael rhifau dysgwyr unigol ar gyfer eu hymgeiswyr drwy anfon neges e-bost at [lrssupport@miap.gov.uk](mailto:lrssupport@miap.gov.uk) neu drwy ffonio **0845 602 2589**, gan ddatgan mai City & Guilds yw eu Sefydliad Dyfarnu (AO).

Mae'r unedau a'r cymwysterau isod wedi'u rhestru ar y FfCC ac yn bodloni gofynion y fframwaith.

## Y cymwysterau Hyfforddiant, Asesu a Sicrhau Ansawdd (TAQA):

Teitl y cymhwyster	Rhif	QAN	Gwerth credyd	Oriau Dysgu Tywysedig
Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu	6317 -30	501/1648/4	3	24
Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith	6317 -31	501/1676/9	9	54
Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaethau	6317 -32	501/1677/0	9	54
Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol	6317 -33	501/1679/4	15	84
Dyfarniad Lefel 4 mewn Deall Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317 -40	501/1649/6	6	45
Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317 -41	501/1678/2	12	90
Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer	6317 -42	501/1680/0	17	115

Term City & Guilds ar gyfer yr unedau hyn yw cymwysterau 'TAQA':

**T**...Hyfforddiant

**A**...Asesu

**Q**...Ansawdd

**A**...Sicrhau

Bydd y cymwysterau asesu a sicrhau ansawdd yn rhan o gasgliad integredig o gymwysterau TAQA ar gyfer ymarferwyr hyfforddiant, asesu a sicrhau ansawdd.

Mae'r cymwysterau hyn ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn rolau asesu a sicrhau ansawdd mewnol neu sy'n awyddus i wneud hynny. Fe'u datblygwyd gan LLUK i ddisodli'r Unedau Aseswr a Gwiriwr (A&V). Fe'u cynlluniwyd i'w defnyddio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – mae trefniadau eraill yn bodoli yn yr Alban.

Bydd yr unedau a'r cymwysterau'n rhoi'r cyfle i bobl sy'n cyflawni asesu a rolau sicrhau ansawdd mewnol yn eu sefydliad ddatblygu a gwella eu harfer yn ogystal â chyflawni cymhwyster proffesiynol ar gyfer y rôl. Maent ar gael i unrhyw un sy'n gweithio mewn: dysgu wedi'i achredu; dysgu heb ei achredu (lle y gall pobl asesu perfformiad ond nad ydynt yn asesu ar gyfer cymhwyster); y FfCC a'r FfCCh.

Unedau gwybodaeth yn unig yw'r rhain (o dan y teitl 'Deall y .....') Mae'r rhain yn caniatáu i unrhyw un sydd â diddordeb mewn asesu a sicrhau ansawdd neu sydd angen gwybod am hynny - ond nad yw'n ymarferwr - i ennill gwybodaeth am y prosesau. Er eu bod yn unedau arunig, maent i'w gweld ym mhob cymhwyster fel y sail gadarn dros arfer 'cymwys'.

Bydd cyflawnwyr yn deall egwyddorion asesu a/neu sicrhau ansawdd mewnol a bydd ganddynt y wybodaeth i ddatblygu a gwella systemau yn eu canolfan.

### **Ymagwedd Gynhwysfawr at Ansawdd a Sicrhau Ansawdd**

Mae o fudd i bawb bod cyflwyno hyfforddiant, asesu a sicrhau ansawdd o ran cymwysterau yn y DU o'r ansawdd uchaf posibl.

Yn City & Guilds, rydym yn ymrwymedig i gefnogi canolfannau er mwyn gwella lefelau ansawdd. Yn unol â hyn, rydym o'r farn bod cynnwys y cymwysterau TAQA – a'r modd o'u cyflwyno – yn hanfodol i sicrhau ansawdd yr holl ddysgu a chymwysterau galwedigaethol.

**Ansawdd** yw 'graddfa ragoriaeth rhywbeth'

**Sicrhau ansawdd** yw 'system o gynnal a gwella safonau'

Mae angen dysgu, asesu a sicrhau ansawdd o ansawdd uchel i gael y mwyaf allan o bob cymhwyster. Mae buddion cyffwrddadwy i bawb o'r ymagwedd hon gan ei bod yn golygu:

- gwell brofiad i'r dysgwr
- cyfraddau cyflawniad uwch i'r dysgwr
- cyfraddau cadw gwell i'r dysgwr
- rhaglenni mwy cost effeithiol
- bod gofynion rheoliadol yn cael eu bodloni
- cymorth ar gyfer prosesau cynllunio a monitro megis hunanasesu

I gyflawni hyn – mae'n rhaid i ansawdd a sicrhau ansawdd gael eu cynnwys o gam cynllunio rhaglenni dysgu – gan eu bod yn rhan annatod o'r rhaglenni eu hunain.




Ffordd ddefnyddiol o edrych ar hyn yw:


***‘Mae’n rhaid i ansawdd a sicrhau ansawdd gael eu hymgorffori yn nulliau cyflwyno canolfannau o’r dechrau – mae’n fwy anodd o lawer i archwilio ansawdd gwael allan nag ymgorffori ansawdd da i mewn...’***

Mae’n rhaid cofio hyn wrth gynllunio i gyflwyno cymwysterau TAQA. Mae’n rhaid i fesurau ansawdd a sicrhau ansawdd gael eu hymgorffori ym mhob proses yn nhaith y dysgwr – mae’r rhain yn cynnwys y:

- broses recriwtio
- proses ymsefydlu
- asesu cychwynnol
- cynlluniau dysgu
- addysgu
- hwyluso dysgu
- adolygu cynnydd
- prosesau asesu
- cyflawniad
- cynllunio dilyniant

Mae ansawdd yn bwysig ym mhob man yn ‘Nhaith y Dysgwr’.....





Os ydych eisoies yn ganolfan ar gyfer cymwysterau Dysgu a Datblygu 7317 & 7318, yna byddwch eisoies yn meddu ar brofiad perthnasol ac adnoddau megis:

- ymarferwyr dysgu, asesu a sicrhau ansawdd medrus
- prosesau sicrhau ansawdd mewnol sy'n bodoli eisoies

## Ymagweddau Dysgu ac Asesu

Mae'n bwysig cydnabod bod y FfCCh yn dod ag 'asesu datganoledig' sy'n golygu na chaiff gofynion ansawdd eu pennu'n ganolog gan Ofqual, ond y cânt eu 'datganoli' i Sefydliadau Dyfarnu, er mwyn caniatáu hyblygrwydd o ran ymagwedd. Fodd bynnag, sylwer bod rhai gweithgareddau gorfodol wedi'u cynnwys yn y strategaeth asesu ar gyfer y cymwysterau hyn. Amlinellir y rhain ar ddechrau cyfarwyddyd asesu pob uned.

Er mwyn cynorthwyo canolfannau, mae'r cyfarwyddyd a gynhwyswyd ar gyfer asesu a thystiolaeth yn seiliedig ar ddysgu ac asesu sydd '*wedi'i seilio ar weithgarwch*'. Argymhellir y dylid mynd ati i gyflwyno ac asesu'r cymwysterau hyn ag ymagwedd gyfannol lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, os yw dysgwr yn cyflawni'r Dyfarniad mewn '*Deall Egwyddorion ac Arfer Asesu*' ac nad yw'n ymarfer fel aseswr, yna caiff yr uned wybodaeth hon ei chyflwyno a'i hasesu ar ei phen ei hun. Fodd bynnag, os yw'r dysgwr yn cyflawni Dyfarniad '*Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith*', mae cyfleoedd i ennill y wybodaeth drwy ymarfer h.y. mewn ffordd arbrol - mae'n bosibl na fydd angen cyflwyno 'dysgu' ar wahân ar gyfer yr uned hon.

Yn y rhan fwyaf o ganolfannau, caiff dysgu ei gyflwyno drwy gyfuniad o:

- arfer cynhwysol
- anogaeth
- profiad
- hyfforddiant
- cymorth a chyngor

Mae darparu cyfleoedd dysgu'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y ganolfan (nid y dysgwr). Mae'n rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddynt y timau staff cywir i gyflwyno dysgu gyda'r dulliau maent yn eu pennu i fodloni anghenion dysgwyr. Bydd asesu crynodol o ran cynnydd pob dysgwr yn monitro eu datblygiad ac yn dangos pan fo asesu crynodol yn briodol.

Wrth asesu Dyfarniad 'Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith', bydd arsylwi o ran arfer yn rhoi cyfleoedd i ennill rhywfaint o wybodaeth wrth iddi gael ei harddangos drwy berfformiad.


Mae'r broses argymelledig ar gyfer asesu'n cynnwys:

- cynllunio a pharatoi ymgeiswyr
- asesu
- dadansoddi
- gwneud penderfyniadau
- cofnodi
- adborth i'r ymgeisydd drwy gydol y broses
- ymgysylltu â'r broses sicrhau ansawdd drwy gydol y broses

Mae'r ymagwedd hon yn lleihau'r baich ar yr aseswr a'r dysgwr gan ei fod yn dileu'r angen i'r dysgwr 'gasglu' tystiolaeth ar wahân ar gyfer asesu – daw'r dystiolaeth yn naturiol o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal.

Dyma'r hyn a ystyriwyd yn draddodiadol i fod yn 'portffolio'. Mae'n cynnwys y ddogfennaeth asesu angenrheidiol: cynlluniau asesu, cofnodion asesu a dyfarniadau a manylion am leoliad tystiolaeth y cynnyrch (felly mae trywydd archwilo y gall IQA ac EQA ei ddilyn, a byddant am weld y dystiolaeth drostynt eu hunain.)

Mae'n bosibl y bydd gan yr aseswr dystiolaeth glywedol neu weledol am y dysgwr. Gallai hyn fod ar ffurf trafodaeth neu sesiwn holi neu gofnodi gweledol o arsylwi gweithgaredd. Bydd yr aseswr wedi gwneud penderfyniad am hyn y bydd wedi'i gofnodi ar y cofnodion asesu.



Gall hwn gynnwys y Polisiau a'r Gweithdrefnau y mae'r dysgwr wedi dangos ei fod yn cadw atynt ac yn eu deall. Drwy eu gadael yn "eu lle", mae'r dysgwr yn ogsoi'r gwaith diangen o'u copïo ar gyfer y 'portffolio'. Bydd yr aseswr yn cofnodi ei fod wedi barnu'r rhain fel rhan o benderfyniad asesu ar ei gofnodion asesu.

Bydd hyn yn golygu tystiolaeth sy'n amhriodol neu'n amhosibl ei rhoi mewn 'portffolio'. Gallai hyn gynnwys cofnodion cyfrinachol, darn o offer neu strwythur a adeiladwyd gan y dysgwr.

## Cadw tystiolaeth a 'phortffolios'

### Tystiolaeth o ddysgu a thystiolaeth o gymhwysedd

Mae 'portffolios' yn dod ar lawer o ffurfiau – mae rhai ohonynt yn electronig, eraill ar ffurf papur, mae eraill yn gyfuniad o'r ddau. Mae'n bwysig cofio mai dyna'r hyn y dylai'r 'Portffolio tystiolaeth' fod gan gynnwys y cofnodion asesu'n UNIG a thystiolaeth sy'n cadarnhau cyflawniad. **Ni** ddylai gynnwys deunyddiau hyfforddi, aseiniadau ar gyfer datblygu'r dysgwr a gwybodaeth arall a chyfarwyddyd a oedd yn ffurfio rhan o 'daith y dysgwr'.

Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr am gynnal cofnod personol o'u dysgu. Gallant gynnal 'Ffeil Dysgu' yn cynnwys yr holl wybodaeth a deunyddiau sy'n siartio eu datblygiad. Fodd bynnag, ni fydd y 'Ffeil Dysgu' hon yn ffurfio rhan o'r prosesau asesu na sicrhau ansawdd – ond byddai gan y dysgwr gofnod personol gwerthfawr o'i daith a'i gynydd.

### Mwy am 'Bortffolios tystiolaeth'

Mae Ofqual wedi haeru'n fynych '*bod modd gadael tystiolaeth yn ei lleoliad naturiol, lle y bo ar ffurf papur neu ddeunydd*', er enghraifft yn y gweithdy, swyddfa neu'r safle adeiladu. Mae hon yn ymagwedd synhwyrol gan nad oes modd rhoi llawer o dystiolaeth am 'gynnyrch' mewn 'portffolio' am amrywiaeth o resymau (e.e. wal brics sydd wedi'i hadeiladu, cofnodion sensitif o gartref gofal ac ati). Yn yr un ffordd, nid yw'n angenrheidiol argraffu a chyflwyno copïau papur o bolisiau a gweithdrefnau os oes modd gadael y rheiny yn eu lleoliad arferol a bod modd iddynt gael eu gwirio gan aseswyr, Aswiriwr Ansawdd Mewnol (IQA) ac Aswiriwr Ansawdd Allanol (EQA) 'yn eu lle'.

Fodd bynnag os mabwysiadwyir yr ymagwedd hon, mae'n rhaid i'r cofnod asesu ddatgan:

- Gan bwy yr aseswyd pwy a beth
- Dyddiad a lleoliad yr asesiad
- Y dulliau asesu a ddefnyddiwyd
- Penderfyniad yr asesiad
- Yr Unedau, Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu a gyflawnwyd
- Lleoliad y dystiolaeth ategol

Gall un 'portffolio' gynnwys tystiolaeth mewn nifer o leoliadau, wedi'i chysylltu gan y trywydd archwilio a ddarparwyd drwy'r cofnodion asesu a sicrhau ansawdd.

Fodd bynnag, mae goblygiadau ymarferol i'w hystyried:

- os caiff tystiolaeth ei gadael yn ei lleoliad arferol, yna bydd yn rhaid i'r aswirwyr ansawdd mewnol ac allanol ei samplu yn ei lleoliad arferol. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff sicrhau ansawdd gynllunio ymweliadau ac ymweld â lleoliadau eraill fel rhan o'u samplu
- mae'n rhaid i'r trywydd archwilio sicrhau ansawdd fod yn glir, bod modd ei olrhain drwy'r dystiolaeth ac mae'n rhaid i'r samplu arfaethedig gael ei gynnal fel sy'n ofynnol gan y cymhwyster
- Mae'n hollbwysig bod y dystiolaeth yn cael ei chadw'n ddiogel yn ei lleoliad arferol a'i bod ar gael i'w samplu ble bynnag y caiff y samplu sicrhau ansawdd allanol ei gynnal. Mae'n gyfrifoldeb ar y ganolfan i drefnu hyn – nid yw'n gyfrifoldeb ar yr Aswiriwr Sicrhau Ansawdd i ddod o hyd i dystiolaeth

### Y cymwysterau

Mae strwythurau'r cymwysterau ar y ddwy dudalen nesaf. Maent yn cynnwys:

- dyfarniadau a thystysgrif mewn asesu ar lefel 3
- dyfarniadau a thystysgrif mewn sicrhau ansawdd mewnol ar lefel 4

## Cymwysterau Asesu Lefel 3

### Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu (3 credyd)

**Uned 1:** Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu (3 credyd)

Dyfarniad gwybodaeth yn unig i'r rhai sy'n dechrau eu taith fel aseswr, neu'r rhai sydd angen gwybod am arfer asesu ond nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd e.e. man cychwyn ar gyfer darpar aseswyr neu gymhwyster datblygu proffesiynol ar gyfer rheolwyr, AD neu bersonèl sicrhau ansawdd.

### Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cynhwysedd yn y Amgylchedd Gwaith (9 credyd)

**Uned 1:** Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu (3 credyd)

**Uned 2:** Asesu Cynhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith (6 credyd)

Ar gyfer ymarferwyr sy'n asesu sut y caiff cynhwysedd mewn amgylchedd gwaith ei ddangos gan ddefnyddio'r dulliau asesu canlynol: arsylwi, archwilio cynnyrch gwaith, holi a thrafod ar lafar, defnyddio eraill (e.e. tystion), datganiadau gan ddysgwyr a Chydnabod eu Dysgu Blaenrol (RPL).

### Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â'r Galwedigaethau (9 credyd)

**Uned 1:** Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu (3 credyd)

**Uned 3:** Asesu Sgiliau Galwedigaethol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth (6 credyd)

Ar gyfer ymarferwyr sy'n asesu gwybodaeth a/neu sgiliau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â galwedigaethau sy'n ddefnyddio'r dulliau asesu canlynol: aseiniadau mewn amgylcheddau gwneud, profion sgiliau, cwestiynau ar lafar ac ysgrifenedig, aseiniadau, prosiectau, astudiaethau achos a RPL. Gall hyn ddigwydd mewn gweithdai hyfforddiant, ystafelloedd dosbarth neu amgylcheddau dysgu eraill.

### Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol (15 credyd)

**Uned 1:** Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu (3 credyd)

**Uned 2:** Asesu Cynhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith (6 credyd)

**Uned 3:** Asesu Sgiliau Galwedigaethol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth (6 credyd)

Ar gyfer ymarferwyr a allai ddefnyddio POB un o'r dulliau asesu a restrir uchod yn seiliedig ar egwyddorion asesu cadarn.

## Cymwysterau Sicrhau Ansawdd Lefel 4

### Dyfarniad Lefel 4 mewn Deall Sicrhau Ansawdd Mewnol mewn Prosesau Asesu ac Arfer (6 credyd)

**Uned 4:** Deall  
Egwyddorion ac  
Arferion Sicrhau  
Ansawdd Asesu'n  
Fewnol  
(6 credyd)

Dyfarniad gwybodaeth yn unig ar gyfer y rhai sy'n dechrau ar eu taith fel ymarferwyr sicrhau ansawdd mewnol neu'r rhai sydd angen gwybod am sicrhau ansawdd yn fewnol ond nad ydynt yn cynnal prosesau sicrhau ansawdd eu hunain. Gallai hyn fod ar ffurf pobl megis aseswyr profiadol neu reolwyr canolfannau, AD neu bersonèl sicrhau ansawdd.

### Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol mewn Prosesau Asesu ac Arfer (12 credyd)

**Uned 4:** Deall  
Egwyddorion ac  
Arferion Sicrhau  
Ansawdd Asesu'n  
Fewnol  
(6 credyd)

**Uned 5:** Sicrhau  
Ansawdd Asesu'n  
Fewnol  
(6 credyd)

Ar gyfer ymarferwyr sy'n sicrhau ansawdd mewnol o ran y broses asesu o fewn canolfan neu sefydliad, drwy gynllunio samplau, monitro a rhoi cyngor ar arfer aseswyr.

### Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol mewn Prosesau Asesu ac Arferion (17 credyd)

**Uned 4:** Deall  
Egwyddorion ac  
Arferion Sicrhau  
Ansawdd Asesu'n  
Fewnol  
(6 credyd)

**Uned 5:** Sicrhau  
Ansawdd Asesu'n  
Fewnol  
(6 credyd)

**Uned 8:** Cynllunio,  
Dyrannu a Monitro  
Gwaith yn eich Maes  
Cyfrifoldeb eich hun  
(5 credyd)

Ar gyfer ymarferwyr sy'n arwain y broses sicrhau ansawdd fewnol o fewn canolfan/sefydliad ac sy'n gyfrifol am reoli ansawdd y broses asesu, arfer a pherfformiad aseswyr. Gallant hefyd ddatblygu systemau ac arwain o ran ymweliadau gan asiantaethau allanol megis sefydliadau dyfarnu.

## 1.1 Cyfleoedd am ddilyniant

Cynlluniwyd yr unedau hyn i'w cyflawni'n unigol neu fel cymwysterau.

Mae'r Unedau 'Deall yr Egwyddorion....' yn rhai gwybodaeth yn unig, felly gall unrhyw un sydd â diddordeb yn yr egwyddorion tanategol ac arferion asesu a sicrhau ansawdd eu cyflawni heb orfod bod yn ymarferwr. Fodd bynnag, gan fod yr unedau hyn yn ymddangos ym mhob un o'r cymwysterau dilynol, mae'n bosibl (pan fo rôl swydd y dysgwr yn caniatáu hynny) symud ymlaen o'r unedau 'Egwyddorion' i arfer ac felly i gyflawni'r unedau 'cynhwysol' neu'r unedau 'seiliedig ar gymhwysedd'.

Mae llwybr dilyniant drwy'r cymwysterau hyn ond *nid yw'n orfodol iddynt fod mewn unrhyw drefn* – oni bai bod y strategaeth asesu'n gwneud hyn yn ofynnol ar gyfer y cymhwyswr y mae'r darpar aseswr neu'r darpar Aswiriwr Ansawdd Mewnol (IQA) yn ei ddefnyddio i gyflawni eu hunedau. Er enghraifft, mewn rhai sectorau, nid yw'n orfodol bod yn aseswr cyn bod yn IQA. Felly gallai ymgeisydd wneud y cymhwyster IQA heb wneud unrhyw un o'r rhai asesu'n gyntaf. ***Felly, mae'n rhaid i ganolfannau gynnal asesiadau cychwynnol manwl a rhoi arweiniad i ymgeiswyr o ran cyflawni'r unedau neu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer eu rôl a'u sefyllfa benodol yr adeg honno.***

Mae'r cymwysterau hyn yn ymwneud â'r cymwysterau canlynol ac wedi'u cynllunio i'w hategu:

- 7303 Dyfarniad Lefel 3 a Lefel 4 mewn Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (PTLLS)
- 7304 Tystysgrif Lefel 3 a Lefel 4 i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLTS)
- 7305 Diplomâu Lefel 5 mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTLLS)

Mae cyfleoedd i gael Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) rhwng y ddwy gyfres hyn o gymwysterau.



## 2 Gofynion canolfannau

Mae'r adran hon yn amlinellu'r prosesau cymeradwyo ar gyfer canolfannau i gynnig y cymwysterau Asesu a Sicrhau Ansawdd ac unrhyw adnoddau y bydd eu hangen ar ganolfannau i gynnig y cymwysterau - gan gynnwys gofynion penodol staff canolfannau.

### 2.1 Cymeradwyo

#### Canolfannau heb eu cymeradwyo gan City & Guilds

Dim ond canolfannau cymeradwy sy'n gallu cynnig cymwysterau City & Guilds. Cyfeirir at sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan City & Guilds fel canolfannau.

Mae'n rhaid i ganolfannau fodloni set o feini prawf ansawdd gan gynnwys:

- darparu adnoddau ffisegol a dynol digonol
- systemau rheoli gwybodaeth glir
- cymorth addas ar gyfer ymgeiswyr
- gweithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd effeithiol
- systemau cofnodion dibynadwy

Mae'n rhaid i sefydliad nad yw wedi cynnig cymwysterau City & Guilds yn flaenorol wneud cais am gymeradwyaeth i ddod yn ganolfan. Mae hyn yn hysbys fel y **broses cymeradwyo canolfannau (CAP)**. Mae angen i ganolfannau gael eu cymeradwyo hefyd i gynnig cymhwyster penodol. Mae hyn yn hysbys fel y broses cymeradwyo cymwysterau (**QAP**).

Er mwyn cynnig y cymwysterau hyn, mae'n rhaid i sefydliadau nad ydynt eisoes yn ganolfannau City & Guilds wneud cais i gymeradwyo'r ganolfan a chymwysterau ar yr un pryd. I wneud hyn, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol.

#### Canolfannau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer yr Unedau A&V

Ar gyfer canolfannau 7317 presennol (Unedau A&V), mae proses gymeradwyo awtomatig – nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau. Caiff lefel y caniatâd sydd ar waith ar y cymhwys 7317 ar adeg dechrau'r unedau TAQA ei chymhwyso'n awtomatig i'r gymeradwyaeth 6317.

Fodd bynnag, fel bob amser gyda chymwysterau newydd, ni fydd canolfannau'n gallu hawlio unrhyw dystysgrifau 6317 cyn i sicrhau ansawdd allanol gael ei gynnal.

Bydd Aswiriwr Ansawdd Allanol (EQA) yn samplu'r cymwysterau hyn bob blwyddyn.

### 2.2 Sicrhau Ansawdd

#### Sicrhau ansawdd mewnol

Mae'n rhaid i bob canolfan gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i sicrhau y caiff cymwysterau eu cyflwyno a'u hasesu yn y ffordd orau bosibl.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyo'r ganolfan yn y lle cyntaf, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol tra bod City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol.

Ar gyfer y cymwysterau hyn, mae'n rhaid i ganolfannau ddatblygu strategaeth a chynllun samplu y mae'n rhaid i bawb sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol eu rhoi ar waith. Bydd canolfannau sydd â phrofiad o gynnis N/SVQs yn gweld bod modd addasu eu proses ddilysu mewnol i sefydlu system sicrhau ansawdd mewnol (IQA) ar gyfer y cymwysterau hyn.

Mae'n rhaid i'r system IQA gynnwys:

- Cynllunio sampl yn seiliedig ar egwyddorion 'CAMERA', h.y. mae'n rhaid i gynlluniau gynnwys samplau o bob math o:
  - **C** – Ymgeiswyr,
  - **A** - Aseswyr,
  - **M** – Dulliau asesu,
  - **E** – Tystiolaeth neu Elfennau,
  - **R** - Cofnodion,
  - **A** – Safleoedd asesu
- Cyfathrebu effeithiol
- Samplu dros dro
- Samplu crynodol
- Monitro arfer aseswyr (gan gynnwys arsylwi)
- Safoni gweithgareddau
- Gweinyddu cadarn
- Cofnodion am yr uchod

Bydd angen i'r sawl sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol wneud yn siŵr bod y ganolfan wedi darparu ar gyfer pob ffactor sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod:

- systemau sicrhau ansawdd yn 'addas at eu diben' ac yn monitro ansawdd taith y dysgwr *mewn gwirionedd*
- samplu sicrhau ansawdd yn cael ei gynllunio a'i gynnal drwy gydol taith y dysgwr ac nid ar ddiwedd yr asesiad yn unig
- dysgu a hyfforddiant yn cael eu cyflwyno'n unol â modelau 'arfer gorau' ac yn bodloni'r holl ofynion – a bod hyn yn cael ei fonitro
- arfer asesu yn unol â'r safonau galwedigaethol cenedlaethol presennol ar gyfer asesu
- aseswyr yn cael eu harsylwi'n rheolaidd yn cynnal prosesau asesu
- aseswyr yn cael cefnogaeth, adborth ar eu harfer ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni
- parhau i gadw cofnodion fel y bo angen
- arfer IQA yn unol â'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol
- pob aelod o'r tîm yn cynnal eu DPP flwyddyn ar ôl blwyddyn
- cyfathrebu â City & Guilds yn effeithiol

### **Sicrhau ansawdd allanol**

Caiff sicrhau ansawdd allanol ei ddarparu gan City & Guilds. Mae hyn yn cynnwys:

- cymeradwyo canolfannau
- monitro cyflwyno dysgu
- monitro arfer asesu
- monitro arferion sicrhau ansawdd mewnol

Caiff sicrhau ansawdd yn allanol ei gyflawni i sicrhau bod cyflwyno cymwysterau a sicrhau ansawdd yn fewnol o safon uchel a bod arfer asesu'n ddilys ac yn ddibynadwy. Nod sicrhau ansawdd yn allanol yw cefnogi datblygu a gwella cyflwyno dysgu, asesu ac arfer sicrhau ansawdd mewnol mewn canolfannau.

### **2.3 Adnoddau dynol**

Mae City & Guilds yn disgwyl i'r cymwysterau hyn gael eu cyflwyno gan ymarferwyr hynod fedrus ym maes cyflwyno dysgu, asesu a sicrhau ansawdd.

Dylai ymarferwyr sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cymwysterau hyn allu cyflawni pob un o'r swyddogaethau canlynol er mwyn sicrhau profiad dysgu o ansawdd i'r dysgwr:

- nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad y dysgwr
- cynllunio ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu a'u dylunio a'u datblygu

- darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel
- hwyluso a chefnogi cynnydd a chyflawniadau dysgwyr
- asesu perfformiad dysgwyr
- adolygu effeithiolrwydd cyfleoedd dysgu
- cyfrannu at y broses sicrhau ansawdd

Felly, ar gyfer pob un o'r cymwysterau aseswyr a sicrhau ansawdd mewnol, mae'n ofynnol bod ymarferwyr yn:

- fedrus, yn wybodus ac yn brofiadol o ran cyflwyno dysgu, asesu a sicrhau ansawdd
- gallu dangos arfer da yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Dysgu a Datblygu a/neu'r Safonau Proffesiynol Perthnasol
- dangos tystiolaeth gyfredol am ddatblygiad proffesiynol parhaus ac arfer mewn asesu a sicrhau ansawdd

Yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan Ddysgu Gydol Oes yn y DU (LLUK), o ran y sawl sy'n gallu cyflwyno'r cymwysterau asesu a sicrhau ansawdd mewnol hyn, ar gyfer yr unedau gwybodaeth yn unig – ym mhle bynnag y byddant yn ymddangos yn y cymwysterau ond yn benodol:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu
- Dyfarniad Lefel 4 mewn Deall Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer

Mae City & Guilds yn disgwyl y canlynol:

- bydd gan ymarferwyr gymhwyster aseswr a/neu sicrhau ansawdd perthnasol (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) er enghraifft:
  - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaethau, **neu**
  - Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol, **neu**
  - A1 Asesu perfformiad ymgeiswyr gan ddefnyddio ystod o ddulliau, **neu**
  - D32 Asesu perfformiad ymgeiswyr a D33 Asesu ymgeiswyr gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol o dystiolaeth
  - Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer, **neu**
  - Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer, **neu**
  - V1 Cynnal sicrhau ansawdd mewnol o ran y broses asesu, **neu**
  - D34 Gwirio'r broses asesu'n fewnol
- **a/neu** feddu ar wybodaeth ymarferol gyfredol a phrofiad o arfer gorau mewn asesu/sicrhau ansawdd.

Ar gyfer cyflwyno'r unedau cynhwysol (h.y. lle mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r rôl):

- Uned 2 Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith
- Uned 3 Asesu Sgiliau Galwedigaethol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth mae'n rhaid i ymarferwyr
- feddu ar un o'r cymwysterau canlynol (neu eu fersiwn gyfatebol gydnabyddedig)
  - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith, **neu**
  - Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol **neu**
  - A1 Asesu perfformiad ymgeiswyr gan ddefnyddio ystod o ddulliau, **neu**
  - D32 Asesu perfformiad ymgeiswyr a D33 Asesu ymgeiswyr gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol o dystiolaeth
- **a** meddu ar wybodaeth ymarferol gyfredol a phrofiad o arfer gorau mewn asesu.

Ar gyfer cyflwyno'r unedau sicrhau ansawdd mewnol cymhwysol (h.y. lle mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r rôl):

- Uned 5 Sicrhau ansawdd asesu'n fewnol
- Uned 8 Cynllunio, dyrannu a monitro gwaith yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain

Mae'n rhaid i ymarferwyr feddu ar un o'r cymwysterau uchod i aseswyr ac un o'r cymwysterau sicrhau ansawdd mewnol canlynol:

- Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer neu
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol o ran Prosesau Asesu ac Arfer, neu
- V1 Cynnal sicrhau ansawdd mewnol o ran y broses asesu neu
- D34 Gwirio'r broses asesu'n fewnol.
- a meddu ar wybodaeth ymarferol gyfredol a phrofiad o arfer gorau mewn asesu a sicrhau ansawdd yn fewnol.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n asesu ac yn sicrhau ansawdd yn fewnol o ran Uned 403 ddangos hefyd:

- bod ganddynt arbenigedd credadwy o ran rheoli ac arwain sy'n berthnasol i'r lefel(au)/unedau maent yn eu hasesu neu'n gwirio.
- bod eu gwybodaeth am ddatblygiadau o ran arfer rheoli ac arfer yn gyfredol;
- bod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer arwain a rheoli ar yr uned(au)/lefel(au) maent yn eu hasesu neu'n eu gwirio.

Yn ogystal mae'n rhaid iddynt feddu ar:

- Cymhwyster aseswr a/neu wiriwr achrededig neu
- Cymhwyster perthnasol mewn asesu a/neu wirio sydd wedi'i fapio i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer asesu a/neu wirio, neu
- Tystiolaeth o gyflawni rhaglen asesu gan gyflogwr sydd wedi'i mapio i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'w hasesu a/neu eu gwirio

Diben yr hyblygrwydd hwn yw annog canolfannau i ddefnyddio ymarferwyr dysgu a datblygu o ansawdd uchel lle y bo'n bosibl, **nid** aseswyr/ personél sicrhau ansawdd cymwysedig **yn unig**.

Er mwyn ategu'r hyblygrwydd hwn, bydd City & Guilds yn gweithio gyda chanolfannau ac ymarferwyr i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol priodol er mwyn sicrhau bod modd cynnal safonau a bod modd datblygu gweithlu mwy cymwysedig a medrus ar gyfer y cymwysterau hyn.

Yn ogystal, mae'n rhaid i ymarferwyr sy'n cyflwyno'r cymwysterau hyn fodloni trefniadau statudol a chytundebol y genedl lle maent yn gweithio.

## 2.4 Gofynion mynediad i ymgeiswyr

Ni ddylai ymgeiswyr sefyll cymhwyster o'r un fath, cynnwys a lefel ag sydd ganddynt eisoes.

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod gan ymgeiswyr y sgiliau, potensial a'r cyfle i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gysylltiedig ag asesu a sicrhau ansawdd mewn unedau neu gymwysterau eraill **fodloni gofynion penodol y strategaeth asesu sy'n gysylltiedig â'r unedau a'r cymwysterau hynny**.

Nid oes unrhyw derfynau oedran yn gysylltiedig ag ymgeiswyr yn sefyll y cymwysterau oni bai bod gofyniad cyfreithiol o ran y broses neu'r amgylchedd y maent yn gweithio ynddo. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i ymgeiswyr am y cymwysterau hyn fod yn iau na 18 oed.

## 2.5 Gofynion technegol y FfCCh

Mae'n rhaid i ganolfannau gofrestru â QCA i fanteisio ar y Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr (LRS) er mwyn cael y Rhif Dysgwr Unigol (ULN) a'r Cofnod Cyflawniad Dysgwyr (LAR) ar gyfer eu dysgwyr. Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn ar gael o [www.cityandguilds.com/QCFIT](http://www.cityandguilds.com/QCFIT).

Dyfernir credyd i ddysgwyr am yr uned maent wedi'i chwblhau sy'n cael ei chofnodi ar eu Cofnod Cyflawniad Dysgwyr (LAR) gan FfCCh. Gallant barhau i gronni credyd tuag at gymhwyster llawn yn ddiweddarach os byddant am wneud hynny; ar yr amod ei fod o fewn y terfynau amser ar gyfer achredu'r cymhwyster penodol. Mae'r LAR hefyd yn dangos i'r dysgwr faint yn fwy o gredydau sydd eu hangen ar y dysgwr er mwyn cyflawni cymhwyster llawn a llwybrau dilyniant.

## 2.6 Gweinyddu City & Guilds

Mae manylion llawn am weithdrefnau gweinyddol City & Guilds ar gyfer y cymwysterau hyn i'w cael yn y *Catalog Ar-lein*. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys gwybodaeth am:

- weithdrefnau cofrestru
- niferoedd cofrestru
- ffioedd
- mynediad ar gyfer arholiadau
- hawliadau am ardystio

Dylai canolfannau fod yn ymwybodol o gyfyngiadau amser o ran cyfnodau cofrestru ac ardystio'r cymwysterau, fel y'u nodir yng *Nghatalog Ar-lein* City & Guilds.

Dylai canolfannau ddilyn yr holl gyfarwyddyd gweinyddol yn ofalus, gan gofio'n benodol bod ffioedd, cofrestru a dyddiadau diwedd ardystio ar gyfer y cymwysterau'n amodol ar newid. Mae'r Newyddion diweddaraf ar gael ar y wefan [www.cityandguilds.com](http://www.cityandguilds.com) <<http://www.cityandguilds.com>>.

## Cadw cofnodion asesu

Mae'n rhaid i ganolfannau gadw copïau o gofnodion asesu ymgeiswyr am o leiaf dair blynedd ar ôl y dyddiad ardystio.

## Tystysgrifau o gredydau uned (CUCs)

Mae tystysgrif o gredyd uned yn cofnodi cwblhau uned yn llwyddiannus. Gall canolfannau wneud cais i City & Guilds am CUCs wedi i ymgeiswyr gyflawni uned. Nid oes angen i ganolfannau aros hyd nes bod y broses ddysgu ac asesu cyfan wedi'i chwblhau er mwyn hawlio CUCs ar gyfer dysgwyr.

## Tystysgrifau llawn

Dim ond i ymgeiswyr sydd wedi bodloni gofynion llawn y cymwysterau y caiff cymwysterau llawn eu rhoi.

## 2.7 Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL)

Mae Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) yn cydnabod y cyfraniad y gallai profiad blaenorol unigolyn ei wneud at gymhwyster. Fel rhan o asesiad cychwynnol pob dysgwr, caiff unrhyw gyfleoedd am RPL eu nodi gan yr aseswr perthnasol.

Caiff hawliadau am greddyau uned drwy RPL eu hystyried mewn achosion unigol. Mae rhai unedau yn y set hon o gymwysterau'n fwy addas ar gyfer hawliad am gredyd drwy RPL nag eraill. Sylwer bod y broses RPL yn ymwneud â rhoi tystiolaeth yn erbyn POB UN o ofynion uned benodol – nid yw'n bosibl hawlio 'cyflawniad credyd rhannol' am uned drwy RPL.

Lle y gallai hawliad am gredyd drwy'r RPL fod yn briodol, bydd aelod o'r tîm asesu'n esbonio i'r dysgwr dan sylw'r hyn y bydd y broses RPL yn ei chynnwys a sut y gellir rhoi tystiolaeth i ategu hawliad RPL. Os bydd dysgwr yn penderfynu peidio â mynd ar drywydd hawliad ar ôl ystyried y dewis i hawlio credyd drwy RPL, mae croeso iddo/iddi wneud hynny heb oblygiadau pellach.

## **2.8 Apeliadau yn erbyn penderfyniadau asesu**

Mae'r adran hon yn ymwneud ag apeliadau yn erbyn canlyniadau gan aseswyr.

Mae'n amod cymeradwyo canolfannau bod pob canolfan yn sicrhau bod gweithdrefn apeliadau ar gael i bob dysgwr. Mae'n rhaid cyflwyno dogfennaeth y weithdrefn apeliadau i City & Guilds wrth gymeradwyo'r cymhwyster.

Os bydd ymgeisydd yn apelio yn erbyn canlyniad asesiad, dylai'r Aseswr geisio datrys y broblem yn y lle cyntaf. Yna dylid ei gyfeirio at yr Aswiriwr Ansawdd Mewnol ac wedi hynny, at y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd Mewnol.

Os na ellir datrys y broblem yn foddhaol, dylid gofyn i'r Aswiriwr Allanol am gyngor annibynnol. Mae'n rhaid i'r holl apeliadau gael eu cofnodi gan Gydlynnydd y ganolfan gan fod ar gael i'r Gwiriwr Allanol a/neu City & Guilds.

## **2.9 Cyfle cyfartal**

Gall pawb fanteisio ar y cymhwyster hwn, waeth beth fo'u rhyw, hil, crefydd neu gred, oedran neu anghenion arbennig. Dylai Cydlynnydd y Ganolfan sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu annheg o ran unrhyw ddysgwr ar sail gallu i fanteisio ar asesu a thegwch yr asesiad.

Mae Ofqual yn ei gwneud yn ofynnol i City & Guilds fonitro canolfannau i weld p'un a gedwir at bolisiâu cyfle cyfartal. Mae polisi cyfle cyfartal City & Guilds i'w weld yn y *Llawlyfr o Gymwysterau Galwedigaethol/Catalog Cynnyrch*. Mae City & Guilds yn ei gwneud yn ofynnol y dylai canolfannau sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig asesiadau sy'n arwain at ei gymwysterau hysbysu ymgeiswyr am bresenoldeb y polisi hwn.

## 3 Cynllun a chyflwyno'r cwrs

### 3.1 Asesu cychwynnol ac ymsefydlu

Bydd angen i ganolfannau gynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau eu rhaglen er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn math a lefel briodol o gymhwyster ac hefyd i sicrhau eu bod yn cyflawni'r uned fwyaf priodol.

Dylai'r broses asesu cychwynnol nodi:

- unrhyw anghenion dysgu penodol sydd gan y dysgwr a'r cymorth a'r cyfarwyddyd y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymwysterau. Cyfeirir at hyn weithiau fel prawf diagnostig neu sgan sgiliau
- unrhyw unedau mae'r dysgwr wedi'u cwblhau eisoes, neu gredydau maent wedi'u cronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau maent ar fin dechrau arnynt
- unrhyw unedau neu rannau unedau a allai achosi anawsterau i'r dysgwr e.e. os nad yw rôl eu swydd neu lefel eu profiadau'n ddigon eang iddynt fodloni'r gofynion
- gofynion strategaeth asesu'r cymhwyster i'r dysgwr ei asesu neu ei sicrhau am ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu bodloni'r anghenion

Mae City & Guilds yn argymhell bod canolfannau yn darparu rhaglen ymsefydlu er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn llwyr ddeall gofynion y cymhwyster/cymwysterau y byddant yn gweithio tuag atynt, eu cyfrifoldebau fel dysgwr a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gallai fod yn ddefnyddiol cofnodi'r wybodaeth ar gontract dysgu.

Mae cyfarwyddyd pellach ar asesu cychwynnol ac ymsefydlu yn ogystal â chontract dysgu y gall canolfannau ei ddefnyddio ar gael ar wefan City & Guilds.

### 3.2 Strategaethau cyflwyno dysgu

Nid yw City & Guilds yn rhagnodi sut mae canolfannau'n cyflwyno'r dysgu ar y cymwysterau hyn ar yr amod bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni.

Dylai staff y ganolfan ymgysylltu â gofynion strwythur, cynnwys ac asesu'r cymwysterau cyn cynllunio unrhyw raglen ddysgu. Yn ogystal, mae gwybodaeth a chyfarwyddyd yn y rhan fwyaf o unedau a fyddai'n ddefnyddiol iawn i staff canolfannau wrth gynllunio rhaglenni dysgu ar gyfer y cymwysterau hyn.



## 4 Asesu

### 4.1 Crynodeb o ddulliau asesu

Bydd unedau gwahanol yn y cymwysterau'n cynnwys gofynion a dulliau asesu gwahanol – a bydd pob un o'r rhain yn gyfarwydd i'r aseswyr a staff sicrhau ansawdd presennol.

Ar gyfer yr uned lle mae cymhwysedd yn cael ei asesu, bydd dulliau'n cynnwys:

- aseswr neu dyst yn arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith
- archwilio cynnyrch gwaith y dysgwr ei hun
- holi'r dysgwr
- trafodaethau gyda'r dysgwr
- defnyddio eraill (tystiolaeth gan dystion)
- edrych ar ddatganiadau dysgwyr
- cydnabod dysgu blaenorol

Ar gyfer yr unedau lle mae gwybodaeth a sgiliau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â galwedigaethau yn cael eu hasesu, bydd dulliau hefyd yn cynnwys:

- cwestiynau ar lafar a chwestiynau ysgrifenedig
- aseiniadau
- prosiectau
- astudiaethau achos
- cydnabod dysgu blaenorol

Dylid casglu tystiolaeth o **weithgareddau ymarferol** o dystiolaeth naturiol a gasglwyd yn yr amgylchedd gwaith.

Mae'n rhaid i dystiolaeth am yr unedau **gwybodaeth yn unig** megis aseiniadau, astudiaethau achos, prosiect ac ati ddilyn canllawiau City & Guilds ac mae'n rhaid cytuno arnynt ymlaen llaw gyda'r Aswiriwr Ansawdd Allanol (EQA).

### Cyfarwyddyd ar asesu cyffredinol

Mae'n rhaid bod tystiolaeth ddilys, ddibynadwy a digonol ar gyfer pob un o'r meini prawf asesu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad ar gyfer pob uned, canlyniad dysgu neu feini prawf asesu i'w hasesu ar wahân. Argymhellir defnyddio asesu cyfannol lle y bo modd. Lle y bo modd, dylid defnyddio un gweithgaredd fel tystiolaeth ar gyfer canlyniadau dysgu ac unedau asesu ar gyfer unedau eraill. Er enghraifft, gallai trafodaeth am 'Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith' ddarparu rhywfaint o dystiolaeth ar gyfer 'Deall egwyddorion ac arferion asesu'. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod tystiolaeth ar gyfer y meini prawf asesu ym mhob uned yn cael eu hasesu'n unigol hefyd.

### Cofnodi gweithgareddau asesu

Gellir cofnodi penderfyniadau am asesu a thystiolaeth mewn ystod o fformatau. Fodd bynnag, waeth pa ffurf ar gofnodi a ddefnyddir, yr egwyddor arweiniol yw bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag asesu'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac arfer gorau yn y sector. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cyfrinachedd o ran gwybodaeth y gellir ei holrhain o hyd at ddibenion gwirio mewnol ac allanol.

Lle y bydd gan ymgeiswyr anghenion penodol, mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth yn amrywio ar yr amod bod unrhyw dystiolaeth amgen yn dangos y gofynion asesu fel y'u nodir yn yr uned.

Mae City & Guilds yn disgwyl yr asesiadau canlynol:

Rhif Uned	Teitl	Dull Asesu	Ble i gael deunyddiau asesu
301	Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu	Aseiniadau ysgrifenedig neu drafodaethau proffesiynol  Mae'n rhaid i'r asesiad gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu a bydd hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth ar gyfer unedau cysylltiedig.	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.
302	Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith</li> <li>• Archwilio cynnyrch gwaith</li> <li>• Holi'r dysgwr</li> </ul>	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.
303	Asesu Gwybodaeth a Dealltwriaeth Sgiliau Galwedigaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith</li> <li>• Archwilio cynnyrch gwaith</li> <li>• Holi'r dysgwr</li> </ul>	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.
401	Deall Egwyddorion ac Arfer Sicrhau Ansawdd Asesu'n Fewnol	Aseiniadau ysgrifenedig neu drafodaeth broffesiynol  Mae'n rhaid i'r asesiad gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu a bydd hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth ar gyfer unedau cysylltiedig.	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.
402	Sicrhau Ansawdd Asesu'n Fewnol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith</li> <li>• Archwilio cynnyrch gwaith</li> <li>• Holi'r dysgwr</li> </ul>	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.
403	Cynllunio, Dyrannu a Monitro Gwaith yn eich Maes Cyfrifoldeb eich Hun	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith</li> <li>• Archwilio cynnyrch gwaith</li> <li>• Holi'r dysgwr</li> </ul>	Mae cyfarwyddyd asesu yn yr uned.

## 4.2 Gofynion tystiolaeth

Darperir y gofynion tystiolaeth ar gyfer y cymwysterau hyn fesul uned. Mae'n rhaid i'r gofynion hyn gael eu bodloni fel y'u nodir.

**Sylwer** – Mae'n bosibl y caiff efelychu ei ddefnyddio yn **Uned 1 a 4** gwybodaeth yn unig. **Ni chaniateir** efelychu yn unrhyw un o'r unedau eraill.

## 5 Unedau

### Argaeledd unedau

Mae'r unedau a'r cyfarwyddyd ar asesu ar gyfer y cymwysterau hyn fel a ganlyn.

Mae'r canlyniadau dysgu a meini prawf asesu hefyd ar gael i'w gweld ar y Gronfa Ddata Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig (NDAQ) yn: **[www.accreditedqualifications.org.uk](http://www.accreditedqualifications.org.uk)**

## Uned 301 Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu

<b>Teitl:</b>	Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu
<b>Lefel:</b>	3
<b>Gwerth credyd:</b>	3
<b>Cyfarwyddyd Cyffredinol</b> Mae'r uned hon yn asesu gwybodaeth yr ymgeisydd sy'n asesu am egwyddorion ac arferion asesu mewn cyd-destun dysgu a datblygu. Gallai tystiolaeth ar gyfer yr uned hon fod ar ffurf: <ul style="list-style-type: none"><li>• datganiadau neu atebion ysgrifenedig gan yr ymgeisydd sy'n asesu</li><li>• datganiadau neu atebion ar lafar gan yr ymgeisydd sy'n asesu</li><li>• trafodaethau rhwng yr ymgeisydd sy'n asesu a'i aseswr ei hun</li><li>• aseiniadau</li><li>• prosiectau</li></ul> <b>Gellir rhoi cryn dystiolaeth ar gyfer yr uned hon ar ffurf datganiadau a thrafodaethau os yw'r darpar aseswr yn rhoi cynnig ar un o'r unedau canlynol neu'r llall ar yr un pryd â hon:</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <i>Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith</i></li><li>• <i>Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth</i></li></ul>	

## Uned 301 Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu

### Terminoleg

Dilys	<i>Sef gwaith y dysgwr ei hun.</i>
Cydraddoldeb	<i>Cyflwr o driniaeth deg sy'n hawl pawb waeth beth fo gwahaniaethau, o ran er enghraifft, diwylliant, gallu, rhyw, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw grŵp arall o nodweddion</i>
Amrywiaeth	<i>Cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw a chydabod ein gwahaniaethau unigol o ran, er enghraifft, diwylliant, gallu, rhyw, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd unigol arall.</i>
Tystiolaeth	<i>Tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth, sgil neu gymhwysedd dysgwr y gellir eu defnyddio i farnu ei gyflawniad yn erbyn safonau/meini prawf cytûn.</i>
Dysgwr	<i>Yr unigolyn sy'n cael ei asesu gan yr ymgeisydd sy'n asesu</i>
Dibynadwy	<i>Yn cyflawni'r un canlyniadau'n gyson gydag aseswyr gwahanol a'r grŵp (neu grŵp) tebyg o ddysgwyr.</i>
Gofynion	<i>Gallai'r rhain fod yn ofynnol gan sefydliad yr ymarferydd ei hun neu sefydliad allanol, megis sefydliad dyfarnu.</i>
Digonol	<i>Digon o dystiolaeth fel y'u nodir mewn Gofynion Tystiolaeth neu Strategaeth Asesu.</i>
Dilys	<i>Yn berthnasol i'r safonau/meini prawf y mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu yn eu herbyn.</i>
Teg	<i>Sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfle i gael asesiad gwrthrychol a chywir.</i>

## Uned 301 Deall Egwyddorion ac Arferion Aseu

<b>Canlyniadau dysgu</b> <i>Bydd yr ymgeisydd sy'n aseu yn:</i>	<b>Meini prawf aseu</b> <i>Gall yr ymgeisydd sy'n aseu:</i>	<b>Canllawiau Tystiolaeth</b> <i>Mae'r ymgeisydd sy'n aseu'n darparu tystiolaeth ei fod yn deall:</i>
1. Deall egwyddorion a gofynion yr asesiad	1.1 esbonio swyddogaethau aseu o ran dysgu a datblygu	Rolau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• aseu cychwynnol o ran nodi anghenion dysgwyr</li> <li>• aseu ffurfiannol o ran olrhain cynnydd dysgwyr</li> <li>• aseu crynodol o ran aseu cyflawniad dysgwyr</li> </ul>
	1.2 diffinio cysyniadau ac egwyddorion allweddol aseu	Y cysyniadau ac egwyddorion allweddol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• aseu fel proses o farnu gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd dysgwyr yn erbyn meini prawf penodol</li> <li>• yr hyn a olygir gan ddilysrwydd a dibynadwyedd</li> <li>• rôl tystiolaeth o ran gwneud penderfyniadau am aseu</li> <li>• yr hyn a olygir gan fod yn ddilys, digonol a chyfredol</li> <li>• pwysigrwydd gwrthrychedd a thegwch i ddysgwyr</li> <li>• pwysigrwydd tryloywder i'r dysgwr</li> </ul>

## Uned 301 Deall Egwyddorion ac Arferion Aseu

<b>Canlyniadau dysgu</b> <i>Bydd yr ymgeisydd sy'n aseu yn:</i>	<b>Meini prawf aseu</b> <i>Gall yr ymgeisydd sy'n aseu:</i>	<b>Canllawiau Tystiolaeth</b> <i>Mae'r ymgeisydd sy'n aseu'n darparu tystiolaeth ei fod yn deall:</i>
